# Sianeli teledu sy’n gorfod darparu gwasanaethau mynediad yn 2025

Cyhoeddwyd 15 Gorffennaf 2024

# 1. Trosolwg

1.1 Mae'r ddogfen hon yn egluro pa sianeli teledu a drwyddedir gan Ofcom sy'n gorfod darparu gwasanaethau mynediad (isdeitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain) ar gyfran o'u rhaglenni yn 2025.

1.2 Yn 2025, bydd yn ofynnol i 83 o sianeli ddarparu gwasanaethau mynediad.

# 2. Datganiad

2.1 Roedd Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi cod sy'n nodi rhwymedigaethau sianeli teledu sydd wedi'u trwyddedu yn y DU i ddarparu gwasanaethau mynediad i deledu. Yn dilyn ymgynghoriad, bu Ofcom gyhoeddi Cod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad i Deledu ("y Cod") ym mis Gorffennaf 2004, ynghyd â nodyn esboniadol yn nodi'r sianeli a fyddai'n gorfod darparu gwasanaethau o'r fath yn y flwyddyn ganlynol. Mae copi o fersiwn gyfredol y Cod, sy'n cynnwys y diwygiadau a wnaed ers i'r Cod gael ei gyhoeddi am y tro cyntaf, ar gael ar wefan Ofcom.

2.2 Mae'r Cod hefyd yn darparu ar gyfer adolygiad canol blwyddyn o gyfran a refeniw cynulleidfaoedd sianeli teledu a drwyddedir yn y DU, a hynny ar sail data ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Pwrpas yr adolygiad hwn yw canfod a ddylai sianeli wneud un o'r canlynol yn ystof y flwyddyn galendr nesaf:

a) darparu gwasanaethau mynediad teledu;

b) bodloni lefel wahanol o ddarpariaeth; neu a ddylent

c) gael eu heithrio o'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau mynediad teledu.

2.3 Mae'r targedau statudol ar gyfer darlledwyr yn cael eu mynegi fel canrannau o'r gwasanaeth. Maent yn codi o lefel isel i'r targedau deng mlynedd a bennir gan y Ddeddf, sef 80% ar gyfer isdeitlo, 5% ar gyfer iaith arwyddion a 10% ar gyfer disgrifiadau sain. Yn achos gwasanaethau Channel 3 (ITV, STV ac UTV) a Channel 4, y targed perthnasol ar gyfer isdeitlo yw 90% ac ar gyfer sianeli'r BBC mae'n 100%[1].

2.4 Mae Ofcom wedi defnyddio cost darparu gwasanaethau mynediad i gyfrifo tair lefel o ddarpariaeth rydym yn eu defnyddio gyda sianeli perthnasol:

a) Mae Lefel Un yn cyfateb i'r holl dargedau blynyddol presennol ar gyfer isdeitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain, yn ogystal ag unrhyw ofynion eraill;

b) Mae Lefel Dau yn cyfateb i 66% o'r targed blynyddol presennol ar gyfer isdeitlo, yn ogystal â 100% o'r targedau ar gyfer iaith arwyddion a disgrifiadau sain, ac unrhyw ofynion eraill; ac

c) Mae Lefel Tri yn cyfateb i 33% o'r targed blynyddol presennol ar gyfer isdeitlo, yn ogystal â 100% o'r targedau ar gyfer iaith arwyddion a disgrifiadau sain ac unrhyw ofynion amgen.

2.5 Cafodd data a gasglwyd gan ddarlledwyr ddechrau 2023 eu defnyddio gan Ofcom i amcangyfrif y costau wrth ddarparu gwasanaethau mynediad. Mae hyn yn helpu i asesu a yw darlledwyr yn gallu fforddio cyflawni eu rhwymedigaethau, drwy beidio â gwario mwy nag 1% o'u trosiant perthnasol.

[1] O dan Siarter a Chytundeb y BBC, mae gan Ofcom ddyletswyddau penodol sy'n ymwneud â gwasanaethau mynediad ar deledu'r BBC a gwasanaethau ar-alw.

## Gwasanaethau Teledu Domestig

2.6 Mae'r rhestr o sianeli domestig sydd angen darparu gwasanaethau mynediad yn 2025 yn Atodiad 1. Yn gryno:

a) Bydd yn ofynnol i 83 o sianeli ddarparu gwasanaethau mynediad yn 2025;

b) Bydd yn ofynnol i 82 o sianeli ddarparu gwasanaethau mynediad ar Lefel Un yn ystod 2025, a bydd gofyn i un sianel ddarparu gwasanaethau mynediad ar Lefel Dau. Ni fydd angen i unrhyw sianel ddarparu gwasanaethau mynediad ar Lefel Tri. I'r rhan fwyaf o sianeli, y targedau gofynnol uchaf o dan y cod ar hyn o bryd yw rhai ar gyfer isdeitlau (80%) , a 10% yw'r uchafbwynt o ran lefel disgrifiadau sain; a

c) Hefyd, mae'n rhaid i dros 50 o wasanaethau gwylio'n ddiweddarach (e.e. ITV2 ac 1) a gwasanaethau cyd-ddarlledu HD (e.e. Channel 4 HD) ddarparu gwasanaethau mynediad.

2.7 Y targed statudol ar gyfer disgrifiadau sain yw 10% o fewn 10 mlynedd i'r dyddiad lansio perthnasol (fel arfer y dyddiad y dechreuodd sianel ddarlledu). Mae pedwar darlledwr – y BBC, ITV, Channel 4 a Sky – wedi ymrwymo'n wirfoddol i roi disgrifiadau sain ar o leiaf 20% o'r cynnwys ar eu sianeli.

2.8 Yn olaf, y targed statudol ar gyfer rhaglenni â dehongliad iaith arwyddion yw 5% o fewn 10 mlynedd i'r dyddiad perthnasol. Mae sianeli sydd â chyfran lai o gynulleidfa (h.y. bod cyfran y gynulleidfa rhwng y trothwyon sydd wedi'u nodi ar gyfer cyfran gynulleidfa ac iaith arwyddion yn Atodiad 1 y Cod Gwasanaethau Mynediad) wedi'u heithrio o'r gofyniad i ddarparu rhaglenni sy'n cael eu dehongli gan iaith arwyddion. Yn hytrach, mae'n ofynnol iddynt wneud un o'r canlynol:

a) darparu nifer sylfaenol o raglenni sy'n cael eu cyflwyno drwy iaith arwyddion rhwng 7am ac 11pm bob mis, yn amodol ar y targedau a ddangosir yn Nhabl A isod; neu

b) talu cyfraniad blynyddol sylfaenol tuag at drefniadau amgen ar gyfer iaith arwyddion, sydd wedi'u cymeradwyo gan Ofcom, fel y nodir hefyd yn Nhabl A.

**Tabl A:** Gofynion o ran iaith arwyddion ar gyfer sianeli sydd â chyfrannau llai o gynulleidfaoedd

| | Gofynion o ran iaith arwyddion ar gyfer sianeli sydd â chyfrannau llai o gynulleidfaoedd<br><br>(Y munudau a ddangosir isod yw lleiafswm faint o gynnwys dylai'r sianeli hyn ei gyflwyno drwy iaith arwyddion, oni bai fod Ofcom wedi cymeradwyo trefniadau amgen) | |
|---|---|---|
| Y flwyddyn o'r dyddiad perthnasol | Cynnwys wedi'i gyflwyno ag iaith arwyddion (misol) | Cyfraniadau blynyddol sylfaenol i drefniadau amgen |
| **Cyntaf** | 30 munud | £32,041 |
| **Ail** | 30 munud | £32,041 |
| **Trydydd** | 30 munud | £32,041 |
| **Pedwerydd** | 30 munud | £32,041 |
| **Pumed** | 45 munud | £48,127 |
| **Chweched** | 45 munud | £48,127 |
| **Seithfed** | 60 munud | £64,214 |
| **Wythfed** | 60 munud | £64,214 |
| **Nawfed** | 60 munud | £64,214 |
| **Degfed** | 75 munud | £80,298 |

## Gwasanaethau Teledu Annomestig

2.9 Ni fydd unrhyw wasanaethau teledu annomestig yn gorfod darparu gwasanaethau mynediad yn 2025.

# A1. Sianeli teledu domestig sy'n gorfod darparu gwasanaethau mynediad yn 2025

**Lefel Un (gofynion llawn)**

| | | |
|---|---|---|
| BBC One | Nick Jr 2 | Sky Sports Mix |
| BBC Two | Sky Arts | Sky Sports News |
| BBC Three | Sky Atlantic | Sky Sports Premier League |
| BBC Four | Sky Cinema Action & Adventure | Sky Witness |
| BBC News | Sky Cinema Animation | Challenge |
| BBC Scotland | Sky Cinema Drama & Romance | Movies 24 |
| CBBC | Sky Cinema Family | Alibi |
| CBeebies | Sky Cinema Greats | Gold |
| Gwasanaethau Channel 3 (ITV/STV/UTV) | Sky Cinema Hits | U&Dave[2] |
| ITV2 | Sky Cinema Premiere | U&Drama |
| ITV3 | Sky Cinema Sci-Fi and Horror | U&W |
| ITV4 | Sky Cinema Select | U&Yesterday |
| ITVBe | Sky Comedy | TNT Sports 1 |
| Channel 4 | Sky Crime | TNT Sports 2 |
| 4seven | Sky Documentaries | TNT Sports 3 |
| E4 | Sky Max | Discovery |
| E4 Extra | Sky Mix | Discovery History |
| Film 4 | Sky Nature | Discovery Turbo |
| More 4 | Sky News | DMAX |
| Channel 5 | Sky Sci-fi | Food Network |
| 5Action | Sky Showcase | HGTV |
| 5Select | Sky Sports Action | Investigation Discovery |
| 5Star | Sky Sports Arena | Quest |
| 5USA | Sky Sports Cricket | Quest Red |
| Comedy Central | Sky Sports F1 | Really |
| Comedy Central Extra | Sky Sports Football | TLC |
| MTV | Sky Sports Golf | |
| Nick Jr | Sky Sports Main Event | |

**Lefel Dau (gofynion llawn ar gyfer iaith arwyddion a disgrifiadau sain; 66% o is-deitlau)**

| | | |
|---|---|---|
| S4C | | |

[2] Bydd Dave, Drama, W and Yesterday yn cael eu hail-frandio fel U&Dave, U&Drama, U&W and U&Yesterday ar 16 Gorffennaf 2024.